

Dyfarniad Rheoleiddio

Medi 2026

Hendre Limited - L132

Dyfarniad

Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau	
Gwyrdd	Mae'r landlord yn bodloni ein gofynion
Hyfywedd Ariannol	
Gwyrdd	Mae'r landlord yn bodloni ein gofynion

Y Broses Ddyfarnu

Cynhaliwyd yr Asesiad Rheoleiddio o Hendre Limited yn unol â'r [Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru](#) 2025. Yn ogystal â chwmpas safonol llywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol, yn dilyn adolygiad o hunanwerthusiad yr RSL, Cynllun Gwella Cydymffurfiaeth (CIP) a dogfennau cysylltiedig, caiff seiber wydnwch a gwydnwch data, llywodraethu a diwylliant, prosesau diogelwch a gwneud penderfyniadau'r Bwrdd, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) ac aliniad y cynllun busnes â'r strategaeth rheoli asedau, eu hadolygu'n fanylach

Yn ogystal ag adolygu dogfennau a ffurflenni rheoleiddio, cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd gyda'r Prif Swyddog Gweithredol, Cadeirydd y Bwrdd, a'r Prif Swyddog Ariannol. Mynychwyd cyfarfodydd y Panel Craffu Tenantiaid, cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg. Gwnaethom hefyd ystyried gwybodaeth o gyswllt rheoleiddio arferol â'r LCC.

Y Gwelliannau Sydd eu Hangen

Dangosodd yr Asesiad Rheoleiddio fod angen cydymffurfio'n well â'r safonau rheoleiddio a nodir isod neu fod angen rheoli risgiau sylweddol yn dynn, er mwyn parhau i fodloni ein gofynion:

Safon Reoleiddio	Gwelliant sydd ei Angen neu Risg Sylweddol i'w Rheoli'n Dynn
RS1: Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion	
c) Mae'n pennu ymrwymïadau mesuradwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob un o'i feysydd busnes mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys materion	Sicrhau bod data am denantiaid yn ddigon cyfredol a chynhwysfawr, a bod y Cynllun Gweithredu EDI yn cynnwys canlyniadau, amserlenni a mesurau llwyddiant clir

gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â throedd casineb)	
d) Mae ganddo Fwrdd amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'r RSL yn gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol	Sicrhau bod y Bwrdd yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n ei wasanaethu, trwy ddata cyfredol a chynhwysfawr am denantiaid a'r gymuned
e) Mae'n gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir o ansawdd da sy'n cynnwys asesu risg ac mae'n gofyn am gadarnhad o ansawdd y data sy'n sail i adroddiadau'r Bwrdd	Sicrhau bod yna drefniadau cadarn ar gyfer llywodraethu, adrodd a sicrwydd ac ar gyfer goruchwyllo'r Bwrdd a'u bod wedi'u hymgorffori'n llawn ac yn gweithredu'n effeithiol ar lefel ymarferol.
RS4: Mae diwylliant y sefydliad yn cefnogi ac yn grymuso tenantiaid i ddylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu	
c) Mae'n gallu dangos bod safbwyntiau a disgwyliadau amrywiol tenantiaid yn llywio'r modd y mae gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu datblygu a'u hadolygu, gan gynnwys ymateb y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i fethiant sylweddol yn y gwasanaeth.	Sicrhau bod gwybodaeth gan denantiaid yn helpu i ddeall anghenion, profiadau a gofynion hygyrchedd tenantiaid, a bod y safbwyntiau hyn yn llywio'r modd y darperir gwasanaethau ac yr ymatebir i fethiant yn y gwasanaeth.

Hunanwerthuso - Gofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025

Nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025 yn llawn. Rhaid mynd i'r afael yn llawn â'r gofyniad a nodir isod yn yr hunanwerthusiad nesaf.

4. Datganiad yn dangos sut mae safbwyntiau tenantiaid wedi'u deall a'u hystyried yn yr ymarfer hunanwerthuso, gan ddangos sut mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hystyried a'r gwahaniaeth a wnaethant.

Mae Hendre wedi cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gwelwch ragor o wybodaeth.

Hendre: Proffil

Nifer yr Unedau	6,422
Trosiant Blynnyddol	£76m
Sicrwydd Talu Llog	298%
Cymhareb Gerio	27%
Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Traddodiadol
Lleoliad	De Cymru

Mae'r ffigurau uchod fel oeddynt ar 31 Mawrth 2026, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.

Bwriad dyfarniadau rheoleiddio yw rhoi syniad i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill o ba mor

dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar y canlynol:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnder a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN Digidol 978-1-83715-903-1
Hawlfraint y Goron 2026